**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 11 Gorffennaf 2018

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Barry Mellor, Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol/ Gary Wiilliams, Pennaeth Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd

**Awdur yr Adroddiad:** Gary Williams, Pennaeth Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd

**Teitl:** **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I geisio cymeradwyaeth aelodau i adroddiad drafft gael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ymwneud â gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2017/2018.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Y bydd y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad drafft wedi ei atodi fel Atodiad 1 a chymeradwyo ei gyflwyno i'r Cyngor yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau a argymhellwyd a chytunwyd gan yr Aelodau.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Mae'r Cyfansoddiad yn ei wneud yn ofynnol i'r Pwyllgor baratoi a chyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Cyngor ar berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor.

Mae'r adroddiad drafft atodedig yn ceisio gosod allan y prif broblemau y mae'r Pwyllgor wedi eu hystyried yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2017/18 a'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

Mae'r adroddiad drafft yn egluro rôl y Pwyllgor, yr eitemau sefydlog y mae'n eu hystyried, a rhai problemau pwysig y mae wedi eu hystyried yn ystod y cyfnod hwn.

Mae gofyn i'r aelodau ystyried a yw cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchu gwaith y Pwyllgor gan wneud unrhyw awgrymiadau ar sut i wella arddull a chynnwys yr adroddiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gwaith y Pwyllgor yn archwilio materion ariannol y Cyngor, rheolaeth risg a rheolaeth llywodraethu corfforaethol yn cynorthwyo'r Cyngor wrth ddarparu Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol mewn cyswllt â’r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae'r adroddiad yn ceisio barn aelodau ynglŷn â chynnwys yr adroddiad Blynyddol. Nid oes angen unrhyw ymgynghoriadau eraill.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r Pwyllgor yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu’r Cyngor. Mae archwiliad effeithiol o brosesau ariannol sylweddol, systemau a throsglwyddiadau yn elfen hanfodol o reolaeth fewnol ac yn darparu lefel o sicrwydd i’r Cyngor ehangach a rhanddeiliaid eraill.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Y risg o beidio â chael Llywodraethu Corfforaethol neu Bwyllgor Archwilio effeithiol yw nad oes unrhyw oruchwyliaeth o lywodraethu corfforaethol y Cyngor sy'n gydran allweddol ar gyfer perfformiad da. Gall llywodraethu corfforaethol gwan gyfrannu at fethiannau yn narpariaeth gwasanaeth.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 13, Cyfansoddiad y Cyngor.